# Papur y Bwrdd

| | |
|---|---|
| **Teitl y papur:** | **Cynllun Llifogydd y Rhath: Cynnig ar gyfer ffordd ymlaen** |
| **Cyfeirnod y papur:** | **NRW B 19.08** |
| **Noddwyd y papur gan:** | **Gareth O'Shea** |
| **Cyflwynwyd y papur gan:** | **John Hogg/Jeremy Parr** |

| | |
|---|---|
| **Diben y papur:** | Darparu argymhelliad cymeradwyo ar gyfer Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru o ran sut i fwrw ymlaen â Chynllun Llifogydd y Rhath (**Cynllun**). Mae'r mater hwn yn cael ei uwchgyfeirio at y Bwrdd oherwydd canlyniadau posibl unrhyw benderfyniad i'n henw da. |
| **Argymhelliad:** | Argymhellir bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn ailystyried yr opsiynau cyflenwi ar gyfer Cam 3 Cynllun y Rhath fel cynllun annibynnol gydag achos busnes newydd o bosibl a fydd angen cymeradwyaeth fewnol ac, yn ei dro, cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Cynigir ein bod yn ystyried ein hopsiwn arfaethedig presennol, yn ailedrych ar rai o'r opsiynau hynny a ddiystyriwyd yn ystod y cyfnod arfarnu opsiynau, ac unrhyw opsiynau newydd a ddarparwyd gan Adroddiad Binnie.<br><br>Fel rhan o'n gwaith o ailystyried datblygu unrhyw achos busnes, rydym yn ystyried defnyddio hwylusydd annibynnol i adolygu'r opsiynau, drwy weithio gyda'r grŵp ymgyrchu, y gymuned a phartïon eraill â buddiant. Mae Dŵr Cymru a Chyngor Caerdydd wedi'u nodi fel partïon â buddiant.<br><br>Bydd llinell gyfathrebu'n cael ei datblygu at ddefnydd mewnol ac allanol. |

## Mater

1. Mae cwblhau'r Cynllun wedi bod yn bwnc dadleuol. Er bod Cam 1 a 2 y Cynllun wedi'u cwblhau, nid yw Cam 3 wedi dechrau cael ei weithredu i unrhyw raddau helaeth eto, ac mae'r gwaith ar Gam 3 wedi cael ei oedi am fwy na 12 mis. Daw'r oedi hwn o ganlyniad i wrthwynebiad i waith Cam 3 gan grŵp ymgyrchu lleol, sydd wedi rhwystro Cyfoeth Naturiol Cymru yn y gorffennol rhag cyflawni'r gwaith yn ddiogel oherwydd presenoldeb protestwyr yn ardal waith Cam 3.
2. Nid yw tir Cam 3 yn eiddo i Cyfoeth Naturiol Cymru, ac nid yw wedi gallu cael mynediad diogel eto heb ymyrraeth gyfreithiol.

## Cefndir a diweddariad ar y sefyllfa bresennol

3. Yn ystod yr oediad hwn, mae trafodaethau parhaus wedi bod ar droed rhwng y grŵp ymgyrchu a Cyfoeth Naturiol Cymru. Fel rhan o'r drafodaeth barhaus hon, mae'r grŵp ymgyrchu wedi comisiynu gwaith gan ymgynghorwyr, a derbyniwyd yr adroddiad diweddaraf gan yr Athro Chris Binnie ar 20 Tachwedd 2018 (**Adroddiad Binnie**). Mae Adroddiad Binnie yn amlinellu opsiynau eraill y mae ef - ar ran y grŵp ymgyrchu - yn credu y gallent elwa ar gael eu harchwilio ymhellach. Er i broses arfarnu opsiynau drylwyr gael ei chwblhau cyn i'r gwaith gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a'r adran gynllunio leol, mae Adroddiad Binnie yn argymell y dylid ystyried archwilio opsiynau eraill penodol ymhellach ar gyfer Cam 3.

4.Mae Cyfoeth Naturiol Cymru a'r grŵp ymgyrchu wedi darparu tystiolaeth ar gyfer Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y grŵp ymgyrchu ar 13 Tachwedd 2018 a Cyfoeth Naturiol Cymru ar 27 Tachwedd 2018). Bydd y Pwyllgor hwn, yn ei dro, yn adrodd i Lywodraeth Cymru, a allai arwain at argymhelliad gan Lywodraeth Cymru i Cyfoeth Naturiol Cymru. Rydym yn aros am argymhellion gan y Pwyllgor Deisebau.

5. Yn dibynnu ar ganlyniad unrhyw drafodaethau gyda'r grŵp ymgyrchu a phartïon â buddiant, byddai angen ystyried statws y caniatâd cynllunio presennol. Yn benodol, mae'n bosibl y bydd angen amrywio'r caniatâd cynllunio presennol os na fyddwn yn symud ymlaen yn unol â'r caniatâd cymeradwy mwyach, neu efallai y bydd angen cyflwyno cais cynllunio newydd i'r Cyngor.

6. Llywodraeth Cymru sy'n darparu'r cyllid cyfalaf ar gyfer ein cynlluniau llifogydd. Mewn e-bost gan Bennaeth Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol Llywodraeth Cymru, dyddiedig 13 Rhagfyr 2018, gofynnwyd i ni ddarparu diweddariad iddynt a chyflwyno opsiynau ar gyfer symud ymlaen â'n gwaith erbyn diwedd mis Ionawr 2019, gan gydnabod yr angen i drafod tybiaethau a chanfyddiadau Adroddiad Binnie. Mae'r e-bost hefyd yn cadarnhau barn swyddogion Llywodraeth Cymru fod y rhan fwyaf o waith Cam 1 a 2 wedi'i gwblhau, a bod yn rhaid i unrhyw waith pellach ar Gam 3 gael ei gyflwyno fel cynllun annibynnol i'w sgorio a'i flaenoriaethu yn unol â hynny yn y rhaglen ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Gwnaethant hefyd gadarnhau mewn sgwrs ddilynol nad oedd hwn yn Gyfarwyddyd Gweinidogol. Golyga hyn, i bob diben, y gallai fod angen datblygu achos busnes ar wahân,

waeth a yw'n cyd-fynd â'n hopsiwn presennol (sydd â'r caniatadau perthnasol) neu unrhyw opsiwn arall (a fyddai angen caniatadau perthnasol).

7.Serch yr uchod, mae tystiolaeth, modelau ac asesiadau Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i gredu bod angen lleihau'r perygl llifogydd i bobl ac eiddo o fewn yr ardal a gynhwysir gan waith arfaethedig Cam 3, a dylid mynd i'r afael â hynny. Yn ogystal, dylai hwn, yn yr un modd â chynlluniau llifogydd eraill, gael ei wneud mewn modd sydd hefyd yn cyflwyno buddion lluosog i'r gymuned o'r parciau a'r gerddi. Rydym wedi ymgysylltu â'r rhai hynny a fydd yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y llifogydd a ragwelir, ac mae 57 o'r 70 o gartrefi wedi ymateb bellach. Er bod llawer o blaid y cynllun, nid oes cefnogaeth frwd drosto.

**Asesiad**

8.**Sail resymegol dros yr argymhelliad**

Wrth ddod i'r argymhelliad hwn, rydym wedi ystyried a chymhwyso'r naw egwyddor rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

| Egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy | Sail resymegol |
|---|---|
| *rheoli mewn modd ymaddasol, drwy gynllunio, monitro, adolygu a, phan fo hynny'n briodol, newid gweithredoedd;* | Mae Adroddiad Binnie wedi awgrymu gwahanol opsiynau cyflenwi posibl ar gyfer Cam 3 y Cynllun. Cred Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru fod angen adolygu'r rhain yn erbyn y gwaith arfaethedig yn ystod Cam 3, er mwyn pennu ai dull gweithredu arfaethedig Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r ffordd orau ymlaen o hyd neu a ddylid ailgynllunio'r Cynllun. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynghori Cyfoeth Naturiol Cymru y dylem ystyried Cam 3 fel cynllun annibynnol, er mwyn iddo gael ei flaenoriaethu wedyn i'w gynnwys o bosibl mewn rhaglenni gwaith yn y dyfodol. Fe wnawn ni newid ein cynigion os oes cyfiawnhad dros wneud hynny |
| *ystyried y raddfa ofodol briodol ar gyfer gweithredu;* | Mae perygl llifogydd i'r 70 o gartrefi yn ardal Cam 3, a chredwn fod angen darparu'r un lefel o amddiffyniad i'r hyn a roddwyd i gartrefi yng Nghamau 1 a 2. Bydd hyn yn ystyriaeth berthnasol yn y broses arfarnu ar gyfer adolygu'r opsiynau newydd yn Adroddiad Binnie. |
| *hyrwyddo cydweithio a chydweithredu, a chyfranogi ynddynt;* | Bydd y broses ar gyfer ailystyried sut i fwrw ymlaen â'r Cynllun yn cynnwys ymgynghori â'r Athro Binnie a chyda'r rhai hynny a fydd yn cael budd o'r Cynllun, yn ogystal â'r gymuned ehangach, gan gynnwys y rhai hynny sy'n |

| | |
|---|---|
| | gwrthwynebu. Mae Dŵr Cymru a Chyngor Caerdydd wedi'u nodi fel partïon â buddiant. |
| *gwneud trefniadau priodol i'r cyhoedd gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau;* | Wrth ailystyried yr opsiynau newydd yn Adroddiad Binnie, byddwn yn ail-ymgysylltu â'r grŵp ymgyrchu a chynrychiolwyr y rhai hynny a fydd yn cael budd o'r Cynllun i drafod yr opsiynau hynny. Fel rhan o'r broses hon, rydym yn ystyried defnyddio hwylusydd annibynnol i weithio gyda'r grŵp ymgyrchu, y gymuned a phartïon eraill â buddiant. |
| *ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol a chasglu tystiolaeth mewn perthynas â materion y ceir ansicrwydd yn eu cylch;* | Yn ogystal ag adolygu ein tystiolaeth bresennol, dylem adolygu'r dystiolaeth newydd a'r opsiynau yn Adroddiad Binnie fel rhan o'r penderfyniad ar sut i fwrw ymlaen â'r Cynllun. Bydd hyn yn ein helpu i bennu ai dull gweithredu arfaethedig Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r ffordd orau ymlaen o hyd neu a ddylid ailgynllunio'r Cynllun. |
| *ystyried manteision a gwerth cynhenid adnoddau naturiol ac ecosystemau;* | Bydd gwerth amddiffyn pobl ac eiddo a'r buddion llesiant o'r parc yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith o arfarnu'r opsiynau. |
| *ystyried effeithiau tymor byr, tymor canolig a hirdymor gweithredoedd;* | Cafodd y Cynllun ei lunio i gyflwyno buddion hirdymor i ardal Cam 3. Byddwn yn ystyried a yw'r opsiynau yn Adroddiad Binnie yn cynnig buddion tebyg dros y tymor byr, canolig a hirdymor. |
| *cymryd camau i atal niwed arwyddocaol i ecosystemau;* | Nod y Cynllun yw amddiffyn pobl ac eiddo, a bydd asesiadau'n cael eu cynnal i asesu a lliniaru'r effeithiau ar y parciau a'r gerddi. Byddwn yn ystyried a yw'r opsiynau yn Adroddiad Binnie yn cynnig mesurau diogelu tebyg i'r ecosystem â Chynllun arfaethedig Cyfoeth Naturiol Cymru. |
| *ystyried gwytnwch ecosystemau,* | Bydd hyn yn ystyriaeth berthnasol yn y broses arfarnu ar gyfer adolygu'r opsiynau newydd yn Adroddiad Binnie. |

## Argymhelliad/Argymhellion

9.Argymhellir bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn ailystyried yr opsiynau cyflenwi ar gyfer Cam 3 Cynllun y Rhath fel cynllun annibynnol gydag achos busnes newydd o bosibl a fydd angen cymeradwyaeth fewnol ac, yn ei dro, cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru.

10.Cynigir ein bod yn ystyried ein hopsiwn arfaethedig presennol, yn ailedrych ar rai o'r opsiynau hynny a ddiystyriwyd yn ystod y cyfnod arfarnu opsiynau, ac unrhyw opsiynau newydd a ddarparwyd gan Adroddiad Binnie.

11.Fel rhan o'n gwaith o ailystyried datblygu unrhyw achos busnes, rydym yn ystyried defnyddio hwylusydd annibynnol i adolygu'r opsiynau, drwy weithio gyda'r grŵp ymgyrchu, y gymuned a phartïon eraill â buddiant. Mae Dŵr Cymru a Chyngor Caerdydd wedi'u nodi fel partïon â buddiant.

12.Bydd llinell gyfathrebu'n cael ei datblygu at ddefnydd mewnol ac allanol.

**Risgiau allweddol**

13.Mae Cam 3 y cynllun wedi bod yn ddadleuol, a gallai unrhyw benderfyniad effeithio ar enw da'r sefydliad. Oherwydd hyn, gofynnir i Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru gymeradwyo'r dull gweithredu rydym yn ei gynnig. Nod ein gwaith parhaus gyda'r grŵp ymgyrchu, y gymuned a Llywodraeth Cymru yw lleihau'r risg hon.

**Goblygiadau ariannol**

14.Efallai y bydd angen i ni ddatblygu achos busnes newydd. Wedi hyn, bydd unrhyw oblygiadau ariannol yn cael eu cyflwyno'n glir ac yn destun llywodraethu ariannol sefydledig y rhaglen perygl llifogydd cyfalaf.

**Asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb**

15.Nid oes angen asesiad ychwanegol penodol mewn cysylltiad â'r penderfyniad hwn.